



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

ADRODDIAD, DOGFENNU

# Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru: nodyn gan Alison Lea-Wilson (Hydref 2024)

Diweddariad gan ddirprwy gadeirydd y bwrdd Alison Lea-Wilson.

Cyhoeddwyd gyntaf: 2 Hydref 2024

Diweddarwyd ddiwethaf: 2 Hydref 2024

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/bwrdd-diwydiant-bwyd-diod-cymru-nodyn-gan-alison-lea-wilson-hydref-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Rwyf wedi byw yng Nghymru ers dod i Brifysgol Bangor yn y 1970au i astudio Saesneg. Cwblheais gwrs TAR a dysgais am y ddwy flynedd ganlynol. Fodd bynnag, roeddwn bob amser wedi bod eisiau gweithio i mi fy hun, felly, ynghyd â fy ngŵr wnaethom sefydlu ein busnes cyntaf yn gysylltiedig â'r môr.

Dyma oedd Mona Seafoods, cwmni pysgod cyfanwerthol, pysgod cregyn a gemau yn cyflenwi gwestai a bwytai ar hyd arfordir Gogledd Cymru, yn gwerthu ein wystrys fferm ein hunain i Blackpool a dod â physgod gwlyb yn ôl.

Fy menter nesaf oedd Sw Môr Môn (Anglesey Sea Zoo), acwariwm cyhoeddus a oedd yn cynnwys siop anrhegion, siop bysgod gwlyb a oedd hefyd yn darparu cawsiau Cymreig, bwyty, a deor cimwch a morfilod môr.

Mae twristiaeth yn dymhorol iawn, ac roedd angen i ni gyflogi staff drwy gydol y flwyddyn felly dechreuwyd rhedeg Halen Môn yn gyntaf ochr yn ochr â'r Sŵ Môr, er iddo ddod i'r amlwg yn gyflym, byddai angen i ni werthu'r acwariwm i roi mwy o amser ac egni i'r busnes halen môr.

Mae fy ngwaith yn y diwydiant bwyd yn golygu bod gen i ddealltwriaeth benodol o'r materion sy'n wynebu busnesau newydd a busnesau bach. Mae Halen Môn yn gwmni teuluol, ond rydym yn cyflenwi cwmnïau Blue Chip fel PepsiCo a Mondelez felly mae gennym safonau a systemau busnes llawer mwy.

Mae Halen Môn yn fwyd Dynodiad Tarddiad Gwarchodedig ac mae gennyf brofiad uniongyrchol o bwysigrwydd brandio, gan amlinellu ein cynnig oddiwrth gynhyrchion cyffelyb a chodi ansawdd a phroffil yr hyn sydd yn ei hanfod yn nwydd, sydd wedi hwyluso twf mewn marchnadoedd domestig ac allforio.

Yn fy ngwaith gyda Bwrdd y Diwydiant Bwyd a Diod fy nod yw deall beth sydd ei angen ar y diwydiant i ffynnu ac annog cynhyrchwyr i chwarae eu rhan mewn partneriaeth sydd yn ei hanfod rhwng Llywodraeth Cymru a'r diwydiant.

Gallai fod i gofleidio gwahanol ffyrdd o weithio'n fwy cynaliadwy, cofrestru fel

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/bwrdd-diwydiant-bwyd-diod-cymru-nodyn-gan-alison-lea-wilson-hydref-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Cyflogwr Gwaith Teg neu fynd y filltir gyfan a bod yn BCorp, fel yr ydym wedi'i wneud.

Mae fy ymgysylltiad hirdymor â'r clystyrau hefyd wedi fy ngalluogi i weld drosof fy hun effaith gadarnhaol y grwpiau hyn trwy eu cefnogaeth i'r ddwy ochr, a chredaf y bydd perthynas waith agos rhwng y bwrdd a grwpiau clwstwr yn hwyluso'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau strategol.

Mae'r diwydiant yn gryfach gyda'i gilydd ac rwy'n barod i wneud unrhyw beth y gallaf fel aelod o'r Bwrdd ac fel cyd-berchennog Halen Môn i wneud y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru bod mor llwyddiannus ag y gall fod, yng Nghymru, y DU a gweddill y byd.

Yng nghyfarfod diwethaf y bwrdd, trafodwyd pwysigrwydd ymgysylltu â grwpiau lleiafrifoedd ethnig i arallgyfeirio ymhellach y cynnig bwyd yng Nghymru wrth wella integreiddio cymunedol.

Ddiwedd mis Hydref byddaf yn mynychu cynhadledd gyntaf Blas Cymru/Taste Wales yn Llandudno gydag aelodau eraill o'r bwrdd lle byddwn yn ymgysylltu'n uniongyrchol â chwmnïau bwyd o Gymru a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys contractwyr ac ymgynghorwyr Llywodraeth Cymru.

Bydd y rhanddeiliaid yma yn cynnal cyfarfodydd 1 i 1 gyda chynhyrchwyr mewn amrywiaeth o bynciau beirniadol busnes.

Ynghyd ag aelodau eraill y bwrdd, byddaf yn falch iawn o gwrdd ag unrhyw un sydd â diddordeb yn y sector bwyd a diod i drafod yr heriau a'r rhwystrau diamheuol, ond hefyd y cyfleoedd pellach i dyfu sector bywiog, ystwyth a llewyrchus.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/bwrdd-diwydiant-bwyd-diod-cymru-nodyn-gan-alison-lea-wilson-hydref-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

Drlllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/bwrdd-diwydiant-bwyd-diod-cymru-nodyn-gan-alison-lea-wilson-hydref-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).